



Annwyl Riant/Warcheidwad

Blwyddyn newydd dda i chi gyd, ac mae'n flwyddyn newydd anarferol iawn. Erbyn heddiw rydyn ni wedi newid trefniadau dychwelyd i'r ysgol tair gwaith, gyda dyddiad dychwelyd Blwyddyn 11-13 wedi newid o 6/1 i 18/1 i 29/1 neu 22/2. Byddwn ni'n defnyddio yr 22ain o Chwefror fel dyddiad dychwelyd wrth i ni gynllunio, ond gall hwn newid. Dydychydychyd'r newidiadau funud olaf ddim yn cynorthwyo disgyblion, staff na rieni ac mae'n bwysig bod pob un yn gofalu am eu lles eu hunain ac eraill. Os mae angen cysylltu am gymorth, cofiwch ddefnyddio'r manylion cyswllt cyfredol sydd yn y ddogfen sydd wedi ei atodi.

Mae'r bwletin hwn yn cynnwys:

- Neges gan yr awdurdod lleol
- Neges gan Gymwysterau Cymru
- Manylion cyswllt yr ysgol

Croeso

Hoffwn ymestyn croeso i Mr. Dafydd Ellis sy'n dechrau yn yr ysgol yn ei rôl newydd fel pennaeth y gyfadran Fathemateg. Mae'n ymuno gyda ni o Ysgol Bro Hyddgen. Mae hwn wedi arwain at rai newidiadau i grwpiau dysgu Mathemateg, a bydd e'n gweithio gyda nifer o grwpiau Blwyddyn 11, 12 a 13 dros y misoedd nesaf.

Arholiadau allanol

Daeth llyfryn CBAC gyda manylion bras y broses asesu allan i ysgolion ar ddydd Mawrth, gyda chynlluniau ar gyfer holl gyrsiau TGAU a Safon Uwch eleni. Erbyn heddiw mae rhan sylweddol o'r ddogfen yn amherthnasol ac atodwn llythyr gan gymwysterau Cymru am hwn.

Rydyn ni'n aros am fwy o fanylion. Rydyn ni wedi cynllunio ein hasesu mewnol dros y flwyddyn i sicrhau ein bod ni'n medru ymateb i unrhyw drefniadau, ond ar hyn o bryd nid oes fwy o wybodaeth ar gael i ni.

Offer TGCh

Mae set newydd o offer TGCh fod cyrraedd yr ysgol yn fuan. Bydd y rhain ar gael i geisio datrys rhai problemau technolegol sydd yn herio teuluoedd yn ystod y cyfnod clo. Rydyn ni eisoes wedi anfon allan pob gliniadur sydd gennym, ond mae dal fwy o alw amdanynt. Pan mae'r offer wedi cyrraedd byddwn ni'n anfon manylion allan ar sut i ymgeisio amdanynt, ond bydd rhaid i ni flaenoriaethu. Wrth flaenoriaethu byddwn yn ystyried y canlynol:

- Yr offer sydd ar gael i unigolion ar hyn o bryd.
- Teuluoedd sy'n hawlio prydau ysgol am ddim, neu sy'n hawlio budd-daliadau eraill.
- Teuluoedd gyda nifer o blant yn cael eu haddysgu adref.
- Anghenion disgyblion unigol

Darpariaeth hwb

Mae'r sir yn rheoli mynediad i'r hwb gofal i flwyddyn 7 ac 8 yn yr ysgol. Mae dolen i'r ffurflen ymgeisio yn y llythyr gan yr awdurdod lleol.

Addysgu rithiol

Bydd amserlen addysgu rithiol y cael ei rannu gyda chi yn wythnosol. Byddwn ni'n ceisio cynyddu'r ddarpariaeth i CA3 pan fydd pob rhiant mewn dosbarthiadau yn rhoi caniatâd cadw recordiadau o wersi yn hirach. Bydd disgyblion CA4 a'r chweched yn parhau i ddilyn eu hamserlen arferol.


Disgyblion Blwyddyn 12/13 yn ailsefyll TGAU Mathemateg a Saesneg

Wrth i ni edrych ymlaen at yr haf, rydyn ni eisiau sicrhau bod disgyblion sy'n fwriadau 'ail-sefyll' TGAU Mathemateg a/neu TGAU Saesneg yn yr haf. Mae Mr Ceri John wedi gofyn i'r disgyblion hyn gysylltu gydag e er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn y ddarpariaeth hon.

Nosweithiau rieni

Mae noswaith rieni'r chweched yn dod yn fuan, ond rydyn ni'n edrych ar ein trefniadau ar gyfer nosweithiau rieni rithiol eraill. Byddwn ni'n edrych i addasu ein trefniadau i ymestyn yr adborth mae rhieni yn derbyn a bydd manylion pellach yn dilyn.

Ar hyn o bryd rydyn ni fel arweinwyr ysgol yn ceisio ymateb i'r newidiadau sy'n dod o'r llywodraeth bob dydd. Byddwn ni'n ystyried y newidiadau hyn dros y penwythnos a rhannu fwy gyda chi wythnos nesaf. Peidiwch oedi i gysylltu os mae unrhyw bryderon wrth i'r trefniadau newid a cheisiwn ateb eich cwestiynau os yw'r wybodaeth gennym.



Dr Rhodri Thomas
Pennaeth